# Tasg 2

**(Estynnol, sbardun 1)**

1.
Yn y darn, mae'r idiom **ar amrantiad**.
**Amrant** yw un o'r blew sydd o gwmpas y llygaid ac **amrannau** yw'r enw lluosog.
Felly, ystyr **ar amrantiad** neu **mewn amrantiad** yw 'yn sydyn'.

Dyma ragor o idiomau am 'yn sydyn', wedi'u cymysgu. Rhowch nhw yn y drefn gywir.

1. bo cyn hir ..........................................................
2. pen dim cyn ..........................................................
3. dim dro mewn o ..........................................................
4. o fyr dro ar ..........................................................
5. unwaith ar ..........................................................
6. chwinciad mewn ..........................................................

2.
Edrychwch ar yr enw **cyflymder**. Mae'r ansoddair **cyflym** wedi cael ei droi'n enw drwy ychwanegu'r terfyniad –**der.**

Llenwch y tabl yn ôl yr enghraifft gyntaf,

| Ansoddair | Enw -der | Enghraifft o'r enw'n cael ei ddefnyddio |
|---|---|---|
| blin | blinder | Roedd blinder y plant yn amlwg. |
| cryf | | |
| bras | | |
| prin | | |
| ysgafn | | |
| gwych | | |
| melys | | |

A sylwoch chi fod **–der** yn troi'n **–ter** weithiau? Pryd mae hyn yn digwydd?